

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 9^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener – 14^{eg} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul (9fed)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 16^{fed} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul canlynol – 23^{ain} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yng Nghefn Berain am 10.00 gyda'r Parti Nadolig yn dilyn. Yn yr un modd, bydd Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Llanefydd am 10.30 a Pharti Nadolig i ddilyn yn y Neuadd. Yna, bydd Gwasanaeth Carolau Undebol Llanefydd yn Eglwys Llanefydd am 6.30 yr hwyr.

I ddod

- **PLYGAIN** wedi ei drefnu gan Gymdeithas Llansannan yng Nghapel Bethania, Llansannan am 7.00 bore dydd Nadolig.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** – oedfa deulu yng Nghapel Groes **am 9.30**.
- **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R FRO** bore dydd Gwener, Rhagfyr 28ain yn ardal Dinbych, a chinio (neu fyrbryd) i ddilyn i bwy bynnag sy'n dymuno ym Melin Brwcws. Mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.
- **BORE BRO ALED** bore Sul, Rhagfyr 30ain **am 10.30** yng Nghapel Cefn Meiriadog.

Sylwch!

Un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi eleni, felly cofiwch anfon unrhyw gyhoeddiadau ar gyfer wythnos gyntaf y flwyddyn newydd erbyn Rhagfyr 20fed, os gwelwch yn dda.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Rhagfyr 9^{fed} a'r 16^{eg}, 2018

DILYNWCH NI AR TWITTER:
@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso mawr i bawb ohonoch i'n hoedfaon. Ddiwedd yr wythnos ddiwethaf y daeth y newyddion brawychus am farwolaeth y Parchedig Euros Wyn Jones, Llangefni. Bu Euros yn wyneb cyfarwydd ym Mro Aled dros y blynyddoedd, yn pregethu'n gyson a hefyd yn darlithio ar amrywiol bynciau i nifer o fyfyrwyr DAWN a Choleg yr Annibynwyr. Yn naturiol rydym am gydymdeimlo â theulu Euros yn eu colled tra byddwn hefyd yn diolch i Dduw am gyfraniad un oedd yn unplyg yn ei argyhoeddiadau Cristnogol ac a weithiodd yn ddiflino i feithrin cenhedlaeth newydd o weision i Grist yng Nghymru.

Dros yr wythnosau nesaf, dwi'n siŵr y bydd nifer fawr ohonom yn cael ein hatgoffa o'r hanesion cofiadwy am eni Mab Duw trwy gyfrwng darlenniadau Beiblaidd neu ddramâu'r geni. Ond mor hawdd yw i ni ddatgysylltu'r hyn a glywn am Joseff, Mair a'r babi a anwyd oddi wrth ein profiadau go iawn ni. Er bod cenhedlu Crist yn wyrth trwy gyfrwng yr Ysbryd Glân, does dim awgrym bod yr enedigaeth felly. Ac er bod Catholigiaeth wedi tueddu i or-ddyrchafu Mair, nid yw'r dystiolaeth Feiblaidd yn honni dim mwy am Mair na'i bod yn ferch ifanc a ddangosodd ffydd yn ei Harglwydd pan nad oedd yn gwbl sicr sut oedd popeth yn mynd i droi allan. Os edrychwn yn fanwl ar yr adran lle mae Mair yn clywed am ei beichiogrwydd annisgwyl ym mhennod gyntaf Luc, nid y ffaith y bydd yn cael plentyn a hithau'n wryf sy'n ei chythryblu i ddechrau, ond yn hytrach bod Duw am ddangos ffafr tuag ati (Luc 1:28-29). Faint ohonom ni sy'n synnu fod Duw yn dangos ffafr tuag at bobl annheilwng heddiw, ac yn dewis rhai ffôl a gwan er mwyn cywilyddio'r doeth a'r cryf (1 Corinthiaid 1:27)?

Ond wedi i'r angel roi esboniad i Mair, ymateb ffydd a ddaeth o'i gwefusau: "Dyma lawforwyn yr Arglwydd; bydded i mi yn ôl dy air di." (Luc 1:38) Ni chafodd Mair y darlun cyflawn ynglŷn â'i mab hynaf, ond fe glywodd ddigon iddi allu ymddiried yn Nuw, ac iddio'i hun i wneud gwaith yr Arglwydd. Yn aml, dyma brofiad ddaw i ran credinwyr hefyd. Heb ateb i bob cwestiwn, bydd gofyn i ni ymddiried yn yr Arglwydd a'i Air cadarn. A gallwn wneud hyn yn hyderus oherwydd ein bod wedi cael gwybod mwy na Mair! O ddarllen gweddill y Testament Newydd sylweddolwn i faban Mair dyfu'n ddyn, a thrwy ei farw a'i atgyfodiad cyflawnodd y cyfan er mwyn ein cymodi â Duw, a rhoi i'w bobl fywyd tragwyddol!

Diolchwn y Nadolig hwn nad stori ffug yw hanes geni Iesu, a bod Duw yn parhau i ddangos ffafr ac i aros gyda phawb sydd wedi rhoi eu bywydau i'w unig Fab, y Gwaredwr.

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 9^{fed} ➤ **OEDFA'R FRO** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 12^{fed}
lau – 13^{eg} ➤ **TORRI SYCHED** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- Gwener – Sul
14^{eg} – 16^{eg} ➤ **PARTI NADOLIG CYFARFOD PLANT LLANSANNAN** yn y Ganolfan am 3.15.
- Sul nesaf – 16^{fed} ➤ **PENWYTHNOS DAIONI** (i ferched Blynnyddoedd 7-13) yng Ngholeg y Bala. Cost £40. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ebostiwyd penwythnosdaioni@gmail.com.
- Mercher – 19^{eg} ➤ **GWASANAETH CAROLAU BRO ALED** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 6.00. Paned a mins pei i ddilyn.
- Gwener – 21^{ain} ➤ **MOLI** – Noson anffurfiol i addoli ac astudio yng Nghefn Meiriadog am 7.30. Croeso i bawb.
- Sul canlynol – 23^{ain} ➤ **CINIO NADOLIG C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul canlynol – 23^{ain} ➤ Ni fydd **OEDFA I'R FRO**.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 9^{fed} ➤ Trefniant lleol fydd yn Saron am 2.00 a chynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 16^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 a chynhelir Ysgol Sul yno am 10.00.
- Sul canlynol – 23^{ain} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuenctid yn Saron am 11.00. Bydd Siôn Corn yn galw heibio ar ôl y gwasanaeth a bydd parti i bawb. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig ym Mheniel am 2.00 a bydd paned a sgwrs i ddilyn yn y Ffestri.

Henllan a Groes

- Sul yma – 9^{fed} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 16^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul canlynol – 23^{ain} ➤ Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Nadolig yno am 2.00. Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10.30, a phaned a mins pei yn y Ffestri i ddilyn.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 9^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Mawrth – 11^{eg} ➤ Cewch Ginio Nadolig a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 16^{fed} ➤ Bydd y Parch. Aneurin Owen yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul canlynol – 23^{ain} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd paned a mins pei i ddilyn. Bydd Gwasanaeth Nadolig Teuluol yn Llanfair am 11.00 a chinio i ddilyn i bawb yn y Neuadd Goffa.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 9^{fed} ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun – 10^{fed}
Mercher – 12^{fed} ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 16^{fed} ➤ Bydd cyfarfod i drefnu Parti Nadolig Llansannan am 8.00.
- Sul nesaf – 16^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (9fed)**, os gwelwch yn dda.
- Llun – 17^{eg} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mercher – 19^{eg} ➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Sul canlynol – 23^{ain} ➤ 'Awn i Fethlehem' – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan am 7.30. Gwneir casgliad tuag at Ganolfan Dydd Waen Goleugoed.
- Sul canlynol – 23^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (16eg)**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 23^{ain} ➤ Gwasanaethau Nadolig Llansannan: Yr oedolion yn y Granar am 10.00, a Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00 a pharti i ddilyn yn y festri. Croeso i bawb!
- Sul canlynol – 23^{ain} ➤ Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Nantglyn am 10.00 a phaned i ddilyn.